**Crist – person go iawn**

Os na fu'r fath  Berson ag Iesu o Nasareth yn y byd, o ba le, atolwg, y daeth yr hanes rhyfedd amdano, a'r geiriau grasol ac anghymharol a briodolir iddo yn yr efengylau? Pwy a allasai ffugio'r fath gymeriad, er enghraifft, â Syr Isaac Newton? Fe fuasai rhaid cael rhyw feddwl digon galluog i ddarganfod deddf fawr disgyrchiant ac ysgrifennu'r Principia i allu gwneud hynny. Mewn gair, fe fuasai rhaid cael rhywun cymaint â Newton ei hun i ddyfeisio a ffugio Newton. A'r un modd am Grist.  Pwy a allasai ddyfeisio'r fath gymeriad gogoneddus â Christ, a llefaru'r geiriau a briodolir i Grist? Neb llai na Christ.

Fe fyddai yn fwy rhesymol credu y gallasai'r bugail mwyaf didalent a di-ddysg ar fynyddoedd Cymru gyfansoddi *Coll Gwynfa* Milton na chredu y gallasai pysgotwyr tlodion Galilea dynnu'r fath bortread sydd yn yr efengylau o Grist, oni buasai eu bod wedi ei weled a'i glywed. Ac os medr yr anffyddiwr gredu mai ffugchwedl brydferth yw'r hanes hwn, rhaid i ni ddweud wrtho, 'O anffyddiwr, mawr yw dy ffydd!'

***Owen Evans***